# Ein Bwyd 2022: Rhagair

Yn adroddiad Ein Bwyd a gyhoeddwyd y llynedd, daethom i’r casgliad bod safonau bwyd y DU yn 2021 wedi’u cynnal, a hynny er gwaethaf effeithiau aflonyddgar COVID-19.
PDF
[Gweld Ein Bwyd 2022: Adolygiad blynyddol o safonau bwyd ledled y DU as PDF(Open in a new window)] (3.28 MB)

Nid oes amheuaeth bod 2022 wedi bod yn flwyddyn o aflonyddwch mawr i system fwyd y DU. I ddefnyddwyr, cododd prisiau bwyd yn gynt na’r gyfradd chwyddiant, gan arwain at y cynnydd mwyaf yn ein biliau siopa ers cenhedlaeth. Yn achos busnesau, gwnaeth y rhyfel yn Wcráin, cynaeafau gwael, prinder gweithwyr a chostau cynhyrchu uwch roi pwysau ychwanegol ar system fwyd sy’n dal i geisio adfer yn sgil pandemig COVID-19 ac addasu i’r dirwedd newydd ar ôl ymadael â’r UE.

Yn adroddiad Ein Bwyd a gyhoeddwyd y llynedd, daethom i’r casgliad bod safonau bwyd y DU yn 2021 wedi’u cynnal, a hynny er gwaethaf effeithiau aflonyddgar pandemig COVID-19 a’r ansicrwydd a ddaeth yn sgil diwedd y cyfnod pontio ar ôl i’r DU ymadael â’r UE. Gwnaethom hefyd gydnabod yr heriau sydd o’n blaenau: y cynnydd tebygol ym mhrisiau bwyd, absenoldeb rheolaethau mewnforio ar gyfer bwyd sy’n dod o’r UE, a’r gostyngiad yn adnoddau awdurdodau lleol. Nid oedd yr heriau hyn wedi’u cyfyngu i 2021 – roeddent yn parhau i fod yn destun pryder yn 2022. Yr un themâu sy’n codi eto yn ein hadroddiad diweddaraf wrth i ni ddelio â’r heriau sy’n dal i fod yma ar ôl anterth  pandemig COVID-19.

Os bydd methiant yn unrhyw ran o’r gadwyn fwyd, yn enwedig os yw’n ymwneud â dilysrwydd a diogelwch yr hyn rydym yn ei fwyta, bydd potensial i achosi niwed neu drallod. Mae’r data yn yr adroddiad blynyddol hwn yn dangos bod gan ein system fwyd lawer o gryfderau, ond mae hefyd yn ein hatgoffa nad yw’n berffaith. Er mwyn cynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn ein system fwyd, mae’n rhaid i ni ddechrau drwy fod yn dryloyw ac yn agored: hynny yw, bod yn onest am y ffordd mae safonau’n newid, ble mae’r mannau gwan, a sut mae angen gweithredu gyda’n gilydd i wella pethau ar gyfer y dyfodol.

Drwy nodi’r ffeithiau a rhannu’r holl ddata a thystiolaeth sydd gennym, gobeithiwn unwaith eto y bydd adroddiad eleni yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau ein system fwyd. Ein hymateb iddynt yw’r her i ni fel rheoleiddwyr yn ogystal â’r llywodraeth, y diwydiant, awdurdodau gorfodi a’r defnyddwyr eu hunain.

Yr Athro Susan Jebb, Cadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd



Heather Kelman, Cadeirydd Safonau Bwyd yr Alban

